# Gallai'r daflen hon achub eich bywyd

Yr hyn mae angen i chi ei wybod am garbon monocsid (CO)



Ni ellir ei weld!

Ni eillr ei arogli!

Ni ellir ei flasu!

EICH GWASANAETH
ARGYFWNG NWY A PHIBELLAU

WALES&WEST UTILITIES

# Beth yw carbon monocsid (CO)?

**Allwch chi ddim ei weld. Allwch chi ddim ei arogli. Allwch chi ddim ei flasu.**

Mae carbon monocsid, a elwir hefyd yn CO, yn nwy gwenwynig sy'n ddi-liw, heb arogl na blas, ac mae'n cael ei ryddhau pan fydd unrhyw danwydd ffosil sy'n llosgi, ddim yn llosgi'n iawn.

Gall ei anadlu eich gwneud yn sâl, ac mae'n gallu lladd. Gall hyd yn oed lefelau isel iawn, dros gyfnod hir, achosi trafferthion iechyd difrifol.

## O ble mae CO yn dod?

Nid dim ond y peiriannau nwy yn eich cartref sy'n gallu cynhyrchu CO. Gall unrhyw offer sy'n cael ei bweru gan lo, olew neu bren hefyd gynhyrchu CO os yw'n ddiffygiol neu ddim yn cael ei ddefnyddio'n iawn.

## Gwybod yr arwyddion...

Er bod CO yn cael ei alw yn lladdwr mud, mae rhai pethau allweddol i edrych allan amdanynt:

- Peiriannau nwy sy'n llosgi gyda fflam felyn neu oren wan, sydd fel arfer yn ddisgleir las
- Golau peilot ar fwyleri yn aml yn chwythu allan
- Anwedd ychwanegol y tu mewn i ffenestr
- Huddugl neu staeniau melyn o gwmpas peiriannau

## Beth yw symptomau gwenwyn CO?

Mae gwenwyn CO yn digwydd pan fyddwn yn anadlu hyd yn oed symiau bach iawn o'r nwy gwenwynig hwn.

Gall symptomau gwenwyn carbon monocsid fod yn debyg i rai gwenwyn bwyd a'r ffliw. Fodd bynnag, yn wahanol i'r ffliw, nid yw gwenwyn carbon monocsid yn achosi tymheredd uchel (twymyn).



### Mae'r symptomau'n cynnwys:


- cur pen
- pendro
- cyfog (teimlo'n sâl) a chwydu
- blinder a dryswch
- poen yn y stumog
- byr o wynt a thrafferth wrth anadlu.

# Sut i atal CO

**Cael larwm CO clywadwy**

- gellir prynu'r rhain o'ch siop DIY leol neu archfarchnad.
- sicrheu ei fod yn y lle iawn.
- profi eich larwm CO yn rheolaidd.
- gwirio bod eich larwm CO wedi'i ardystio i safon Brydeinig BS EN 50292:2023.

**Cofiwch, mae'r larymau'n bwysig ond nid ydynt yn cymryd lle gwiriadau diogelwch nwy blynyddol gan beiriannydd cymwys.**



## Amau CO?

Os byddwch yn arogli **nwy** neu'n amau gwenwyn CO, ewch allan ar unwaith a'n ffonio ni ar y rhif argyfwng nwy cenedlaethol **0800 111 999**.